

## Pecyn Recriwtio Ymddiriedolwyr

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymuno â Bwrdd Ymddiriedolwyr Theatr Genedlaethol Cymru. Ry'n ni'n edrych am bobl sydd â diddordeb angerddol yn y celfyddydau, ac sydd yn frwdfrydig ac uchelgeisiol dros theatr yng Nghymru.

Ry'n ni'n edrych am Ymddiriedolwyr sydd â sgiliau a phrofiad penodol, ac ry'n ni hefyd yn awyddus iawn i gael cynrychiolaeth o amrywiaeth o bobl a chymunedau. Mae profiadau personol a safbwyntiau gwahanol yr un mor werthfawr i ni, wrth i ni geisio llywio'r cwmni drwy'r cyfnod nesaf yn ei hanes, cyflawni ein gweledigaeth a chyrraedd ein nodau strategol.

Mae effeithiau digwyddiadau mawr dros y blynyddoedd diwethaf i'w gweld mewn cymunedau ledled Cymru ac yn debygol o fod yn effeithiau hirdymor. Mae heriau'r cyfnod nesaf yn cynnwys: costau byw cynyddol, effaith hirdymor Covid-19 a Brexit, cynnal a datblygu'r cyfleoedd i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau amlwg a diffyg hygyrchedd i weithgareddau celfyddydol. Mae'n holl bwysig ein bod ni fel cwmni yn ystyried ac ymateb i'r heriau yma, gydag anghenion pobl yn llywio'r ffordd. Mae rôl bwysig gan yr Ymddiriedolwyr yn y broses hon – yn amrywio o gynnig syniadau a chefnogaeth, i herio a dwyn i gyfrif.

Mae bod yn un o Ymddiriedolwyr Theatr Genedlaethol Cymru yn rhoi cyfle gwerthfawr i gyfrannu at ddiwylliant Cymru, i fod yn rhan o fyd y celfyddydau, a mynychu digwyddiadau a pherfformiadau. Mae bod yn Ymddiriedolwr yn eich galluogi i wneud gwahaniaeth a chyfrannu at ffyniant y cwmni a theatr Gymraeg yn y dyfodol.

Mae'n bwysig iawn i ni fod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cynrychioli amrywiaeth mor eang â phosib o bobl. Rydym yn awyddus i gynyddu'r cynrychiolaeth ar y Bwrdd o'r grwpiau canlynol - menywod; pobl ifanc (dan 30); pobl o'r Mwyafrif Byd-eang; a phobl anabl. Os ydych yn uniaethu gydag un neu fwy o'r grwpiau yma, bydden ni'n arbennig o awyddus i dderbyn cais gennych.

Ceir rhagor o wybodaeth am y rôl yn y pecyn hwn. Byddem yn ddiolchgar iawn petaech yn llenwi'r ffurflen mynegi diddordeb er mwyn i ni gael dysgu tipyn amdanoch chi, ac i chi gael dweud sut y byddai'r cwmni yn elwa o'ch cyfraniad.

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol ar unrhyw bwynt yn ystod y broses ymgeisio, mae croeso i chi gysylltu a mi:

[angharad.leefe@theatr.com](mailto:angharad.leefe@theatr.com)  
07903 842554

Angharad Jones Leefe

Ysgrifennydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr  
a Chyfarwyddwr Gweithredol

# THEATR CYMRU

## Y Cwmni

Creu theatr Gymraeg fel man i ddod ynghyd, i gysylltu'r adnabyddus a'r annisgwyl, Cymreictod a'r byd, i drafod yn ddwys ac i godi'r galon.

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn creu a chyflwyno cynyrchiadau theatr sy'n anelu at ddifyrru, cyffroi a swyno ein cynulleidfaoedd a thanio eu dychymyg. Rydym hefyd yn darparu cyfleoedd datblygu a fydd yn meithrin ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o artistiaid theatr Cymraeg, ac yn cynnig cyfleoedd creadigol i bobl ledled Cymru brofi effaith drawsnewidiol y celfyddydau.

Fel cwmni cenedlaethol, ry'n ni'n ceisio dangos arweinyddiaeth o fewn y sector, meithrin a datblygu talent, gwneud y mwyaf o gyfleoedd partneriaeth a chydweithio, datblygu a chynyddu cysylltiadau rhyngwladol, a chyrraedd y cynulleidfaoedd mwyaf eang posibl.

Mae dros ugain mlynedd ers sefydlu'r cwmni yn 2003 ac mae'r cwmni wedi ymgartrefu yng Nghaerfyrddin ers 2008. Penodwyd Cyfarwyddwr Artistig newydd – Steffan Donnelly – yn 2022, ac mae e ac Angharad Jones Leefe, y Cyfarwyddwr Gweithredol, yn Brif Weithredwyr ar y cyd.

Mae'r cwmni yn Elusen gofrestrdig (Rhif 1106032) ac yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant (Rhif 04784488). Cyngor Celfyddydau Cymru yw prif noddwr y cwmni ac yn 2024-25 rydym yn derbyn grant refeniw o £1,018,761.

Eisteddfod 2022 (Gareth Bull)



le le le (Kirsten McTernan)



Swyn (Kirsten McTernan)



Mae rhai o uchafbwyntiau'r blynyddoedd diwethaf yn cynnwys...

Parti Priodas (Mark Douet)



## PARTI PRIODAS

Rhinoseros (Mark Douet)



## RHINOSEROS

Bren Calon Fi (Mefus Photography)



## BRÊN CALON FI

Pijin (Kristina Banholzer)



## PIJIN

Swyn (Kirsten McTernan)



## SWYN

## Tu hwnt i gynyrchiadau...

Mae ein gwaith cyfranogi yn ffordd holl bwysig o ymwneud a'n cynulleidfaoedd mewn modd gwahanol, ond hefyd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bobl gymryd rhan yn y celfyddydau – i fwynhau, magu hyder a datblygu sgiliau. Mae'r ymwneud a'r celfyddydau hefyd yn gallu cefnogi adferiad a gwella iechyd a lles. Yn aml yn y gwaith yma daw pwŷl er y celfyddydau i'r amlwg.

### **Ar y Dibyn:**

Mae'r prosiect Ar y Dibyn yn rhoi cyfle i bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan ddibyniaeth – boed hynny'n bobl sy'n byw gyda dibyniaeth neu sy'n cefnogi pobl eraill sydd a dibyniaeth – i ddod at ei gilydd a rhannu'r straeon hynny mewn ffordd greadigol.

### **Prosiect Ashtar Theatre x Theatr Gen:**

Yn defnyddio grym barddoniaeth a theatr fel ieithoedd fyd-eang, mae cyfranogwyr ifanc o Gymru a Phalestina yn cymryd rhan mewn cyfres o weithdai ar-lein, gyda'r bwriad o ddenu sylw i leisiau ieuencid a meithrin dealltwriaeth rhyng-ddiwylliannol.





## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gallu cynnwys hyd at 15 aelod, yn cynnwys y Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Artistig (yn rhinwedd eu swyddi). Ar hyn o bryd rydym yn edrych am hyd at chwech Ymddiriedolwr newydd.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn ar gyfer cyfarfodydd llawn o'r Bwrdd. Mae dau bwyllgor sy'n gwasanaethu'r Bwrdd – y Pwyllgor Cynnwys a Chynulleidfaoedd, a'r Pwyllgor Cyllid a Materion Gweithredol. Mae pob Ymddiriedolwr yn aelod o un o'r pwyllgorau hyn, yn ddibynnol ar arbenigedd a diddordeb. Mae'r pwyllgorau yn cyfarfod cyn bob cyfarfod llawn o'r Bwrdd.

### Beth yw ymddiriedolwyr?

Ymddiriedolwyr elusennau yw'r bobl sy'n rhannu'r cyfrifoldeb am lywodraethu elusen a chyfarwyddo sut mae'n cael ei rheoli a'i rhedeg. Maent weithiau yn cael eu galw'n ymddiriedolwyr, y bwrdd, cyfarwyddwyr neu enw arall.

Mae ymddiriedolwyr yn defnyddio eu sgiliau a'u profiad i gefnogi eu helusennau, gan eu helpu i gyflawni eu nodau. Mae ymddiriedolwyr hefyd yn aml yn dysgu sgiliau newydd yn ystod eu hamser ar y bwrdd.

# THEATR CYMRU

Rydym yn edrych am ymddiriedolwyr sydd â'r rhinweddau a'r sgiliau canlynol:

- Ymrwymiad i Theatr Genedlaethol Cymru ac i'r celfyddydau yng Nghymru
- Parodrwydd i neilltuo'r amser a'r ymdrech angenrheidiol
- Y gallu i wneud penderfyniadau da, yn annibynnol
- Y gallu i feddwl yn greadigol
- Parodrwydd i fynegi barn
- Deall a derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau cyfreithiol
- Y gallu i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm
- Heb ei (g)wahardd rhag bod yn ymddiriedolwr elusen

# Manyleb Person

Rydym yn croesawu ceisiadau gan unrhyw un ond mae gennym ddiddordeb penodol mewn unigolion sydd ag arbenigedd neu brofiad yn y meysydd canlynol:

- Cyllid a rheolaeth ariannol
- Theatr, fel ffurf artistig (yn cynnwys gweithwyr llawrydd)
- Llywodraethiant
- Adnoddau Dynol
- Marchnata a Chyfathrebu

Os ydych yn fenyw, yn berson anabl, neu'n berson o'r Mwyafrif Byd-eang\*, ry'n ni'n arbennig o awyddus i glywed gennych am ein bod yn dymuno cynyddu ein cynrychiolaeth o'r grwpiau hyn. Os ydych yn uniaethu gydag un neu fwy o'r grwpiau yma rydym yn eich annog i gyflwyno ffurflen mynegi diddordeb, hyd yn oed os nad oes gennych yr arbenigeddau a nodir uchod.

Rydym yn awyddus i sicrhau bod ein Bwrdd mor gynhwysol a chynrychioliadol â phosib. Os ydych yn ystyried bod rhwystrau yn eich atal rhag mynegi diddordeb mewn bod yn Ymddiriedolwr, cysylltwch â ni i drafod, er mwyn i ni geisio adnabod ffyrdd o ddileu'r rhwystrau hynny. Mae'r manylion cyswllt ar waelod y ddogfen hon.

Nid oes angen i bawb fod a phrofiad blaenorol o fod yn Ymddiriedolwr. Bydd proses sefydlu ar gyfer Ymddiriedolwyr newydd, ac fe all hyn gynnwys hyfforddiant a mentoriaeth. Bydd pob Ymddiriedolwr newydd hefyd yn cael ei baru gydag un o'r Ymddiriedolwyr presennol, er mwyn cael cefnogaeth a rhannu profiadau.

\*Mae'r term Mwyafrif Byd-eang yn cyfeirio at bobl sy'n Ddu, Asiaidd, Brown, o dreftadaeth gymysg, yn frodorol i'r de byd-eang, neu sydd wedi e'u hil-ddiffinio fel 'lleiafrifoedd ethnig'. Mae'r term Mwyafrif Byd-eang felly yn un cyfunol sy'n siarad am, ac yn annog pobl o'r grwpiau hyn i feddwl am eu hunain fel mwyafrif yn ein byd.



Rhinoseros (Mark Douet)

## Rôl Ymddiriedolwr

Mae dyletswyddau Ymddiriedolwyr wedi'u nodi yn y rhestr isod. Mae'n bwysig pwysleisio bod y cyfrifoldebau yma'n cael eu rhannu gan yr holl Ymddiriedolwyr sy'n aelodau o'r Bwrdd. Nid oes disgwyl i Ymddiriedolwyr unigol gyflawni'r isod i gyd ar eu pennau eu hunain. Mae cydweithio a thynnu ar arbenigeddau a phrofiadau gwahanol aelodau yn allweddol.

### Mae dyletswyddau Ymddiriedolwr yn cynnwys:

- Sicrhau bod y cwmni yn dilyn ei amcanion (dibenion) datganedig, fel y nodir yn ei ddogfen lywodraethol
- Sicrhau bod y cwmni yn cydymffurfio â'i ddogfen lywodraethol, cyfraith elusennol, cyfraith cwmnïau ac unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau perthnasol eraill
- Sicrhau bod y sefydliad yn defnyddio'i adnoddau yn unig er mwyn cyflawni ei amcanion elusennol er budd y cyhoedd
- Sicrhau bod y sefydliad yn diffinio ei nodau ac yn gwerthuso perfformiad yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt
- Diogelu enw da a gwerthoedd y sefydliad
- Sicrhau bod y sefydliad yn cael ei weinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon, gan gynnwys bod â pholisïau a gweithdrefnau priodol ar waith
- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol y sefydliad
- Amddiffyn a rheoli eiddo'r elusen a sicrhau buddsoddiad priodol o gronfeydd yr elusen
- Yn dilyn trefniadau priodol a ffurfiol ar gyfer penodi, goruchwyllo, cefnogi, gwerthuso a phennu cydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwyr
- Bod yn ladmerydd dros y cwmni a mynychu cynrychiadau'r cwmni.

Yn ychwanegol at y dyletswyddau statudol uchod, dylai pob Ymddiriedolwr ddefnyddio unrhyw sgiliau, gwybodaeth neu brofiad penodol sydd ganddynt i helpu Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i ddod i benderfyniadau cadarn.

## Tâl:

Rôl wirfoddol yw hon felly does dim tâl, ond mae modd hawlio costau. Gall hyn gynnwys costau teithio neu letya. Fe all hefyd gynnwys costau gofal plant, neu ddibynyddion eraill, er mwyn eich rhyddhau i fynychu'r cyfarfodydd.

## Lleoliad:

Fel arfer, mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn rhithiol, dros Zoom neu Teams gyda'r nos (neu ar amser sy'n gyfleus i'r mwyaf). Mae'r Bwrdd yn anelu at gyfarfod wyneb yn wyneb o leiaf unwaith y flwyddyn, fel arfer yn swyddfa'r cwmni yng Nghaerfyrddin.

## Ymrwymiad Amser:

Isafswm o 6 cyfarfod y flwyddyn (tua 2 awr yr un) ac amser i baratoi ar gyfer cyfarfodydd a darparu cefnogaeth gyffredinol i swyddogion y cwmni ar ben hynny. Yn achlysurol, mae'r Bwrdd yn cynnal sesiwn ychwanegol (all fod yn ddiwrnod cyfan) er mwyn cael trafodaeth fwy manwl ar gyfeiriad strategol y cwmni.

## Mynediad a Chefnogaeth:

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn agored i drafod unrhyw gymorth neu adnoddau ychwanegol y gallai fod eu hangen arnoch yn ystod y broses ymgeisio, neu ar ôl eich recriwtio, i'ch galluogi i ymgymryd â'r rôl yn effeithiol. Ni fydd hyn yn effeithio ar ba mor gymwys ydych chi ar gyfer y rôl nac ar gryfder eich cais. I gael sgwrs anffurfiol am gymorth ychwanegol, cysylltwch 'Ha ni drwy e-bostio [swyddi@theatr.com](mailto:swyddi@theatr.com) neu ffonio **07903 842554**.

## Iaith:

Cymraeg yw prif iaith y cwmni a'i Fwrdd, a chynhelir cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen y gallu i gyfathrebu a gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond fe fyddem ni'n barod i ddarparu hyfforddiant i loywi iaith a chefnogaeth i fagu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.



## Sut i ymgeisio

Defnyddiwch y ddolen isod i lenwi'r ffurflen mynegi diddordeb, er mwyn i ni gael dysgu tipyn amdanoch chi, ac i chi gael dweud sut y byddai'r cwmni yn elwa o'ch cyfraniad.

### Ffurflen Mynegi Diddordeb

Os oes well gennych gyflwyno'r wybodaeth yma ar ffurf fideo mae croeso i chi wneud hynny. Mae modd ebostio'r fideo neu ei anfon drwy WhatsApp ar **07903 842554**. Cysylltwch â ni ar **swyddi@theatr.com** os hoffech dderbyn y ffurflen mynegi diddordeb ar ffurf Microsoft Word.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y swydd, os oes angen unrhyw gymorth arnoch i gyflwyno cais, neu os hoffech gael fformat gwahanol, cysylltwch â ni'n uniongyrchol drwy e-bostio **swyddi@theatr.com** neu ffonio **07903 842554**

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 2yp ar 23 Ionawr 2025.**

**Cynhelir cyfweiliadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 10 Chwefror 2025.**

